**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 23 Medi, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.D.D. Carroll (Cadeirydd); Cynghorydd L.O. Rowlands (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr: P. Drake, Dr. I.J. Johnson, K.F. McCaffer, J.M. Norman, M.R. Wilson and Mr. P. Lewis (Aelod Lleyg r).

Hefyd yn bresennol: R. Freitag ac S. Wyndham (Archwilio Cymru)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL BRO MORGANNWG (CYNLLUN GWELLA RHAN II) 2020/21 (CYF) –

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys Adroddiad Blynyddol Bro Morgannwg (Cynllun Gwella Rhan II) yn cael ei nodi.

Rhesym dros benderfyniadau

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL 2020/21 – ADRODD I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU (PC/SA151) -

PENDERFYNWYD – BOD adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar archwilio Datganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21 yn cael ei gymeradwyo a bod y Datganiadau Ariannol gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol a'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol yn cael eu hargymell i'w llofnodi gan y rhai a awdurdodwyd.

Rhesym dros benderfyniadau

Ar ôl ystyried canlyniadau archwiliad Datganiadau Ariannol y Cyngor ar gyfer 2020/21.

EITEM AGENDA 6. GWEITHREDU'R SAFON ADRODD ARIANNOL RYNGWLADOL AR GYFER PRYDLESU (IFRS 16) (PC/SA151) -

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD adroddiad diweddaru yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

Rhesym dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn rhoi diweddariad ar y gwaith a wneir ynghylch gweithredu'r Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol ar gyfer Prydlesu (SAARh/*IFRS* 16).

EITEM AGENDA 7. ADOLYGIAD O DWYLL A LLYWODRAETHU FEL RHAN O'R ARCHWILIAD ALLANOL GAN ARCHWILIAD CYMRU (PC/SA151) -

PENDERFYNWYD – BOD canfyddiadau'r adolygiad o Dwyll a Llywodraethiant fel rhan o'r archwiliad allanol gan Archwilio Cymru yn cael eu cytuno.

Rhesym dros benderfyniadau

O ystyried canfyddiadau'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

EITEM AGENDA 8. DIWEDDARIAD CHWARTER 1 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL RG) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD sefyllfa risgiau corfforaethol Chwarter 1 ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2021 yn cael ei nodi fel yr amlinellir yn Atodiad A.

(2) BOD sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn y cyfarfod pan fydd y Cabinet yn ystyried adroddiad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer chwarter 1.

(3) BOD adroddiad diweddaru ar sefyllfa Chwarter 2 yn cynnwys mwy o ffocws a sylw ar y goblygiadau o ganlyniad i'r argyfwng ynni presennol a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwy.

(4) BOD adroddiad sefyllfa Chwarter 2 yn rhoi diweddariad manylach ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn gysylltiedig ag integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Rhesym dros benderfyniadau

(1) Bod yn ystyriol o adroddiad diweddaru Cofrestr Risg Chwarter 1 a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Ar y cais i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio gael eu hystyried pan gyflwynir sefyllfa Chwarter 1 y Gofrestr Risg i'r Cabinet.

(3) O ganlyniad i'r risgiau sy'n gysylltiedig yn sgil yr heriau presennol sy'n effeithio ar gyflenwi nwy.

(4) I roi diweddariad manylach ar y gwaith a wnaed ynghylch integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

EITEM AGENDA 9. DIWEDDARIAD MENTER TWYLL GENEDLAETHOL (PGAR) –

PENDERFYNWYD - BOD nodi cynnwys yr adroddiad.

Rhesym dros benderfyniadau

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 10. CYNNYDD YN ERBYN YR ARCHWILIAD MEWNOL SEILIEDIG AR RISG RISG 2021-22 (PGAR) -

PENDERFYNWYD - BOD nodi cynnwys yr adroddiad.

Rhesym dros benderfyniadau

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 11. BLAENRAGLEN WAITH WEDI'I DIWEDDARU (PGAR) -

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r Rhaglen Ymlaen Gwaith wedi'i diweddaru.

(2) Cymeradwyo'r amserlen eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 13 Rhagfyr, 2021.

Rhesym dros benderfyniadau

(1&2) Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol ac yn cael gwybod am y cynnydd ar y Rhaglen Waith wedi'i diweddaru.